# Addysg heddwch yn y Cwricwlwm i Gymru

Mai 2022



"Mae'r gweithgareddau wedi bod yn help i wybodaeth a dealltwriaeth y plant yn fwy nag unrhyw brosiect arall... mae'r sgiliau'n berffaith ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru" Athro ar brosiect Heddwch Sir Gaerfyrddin

Mae addysg heddwch yn cefnogi addysg a datblygiad pobl ifanc fel dinasyddion lleol a byd-eang yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r papur hwn yn archwilio:

- beth ydy addysg heddwch
- arwyddocâd addysg heddwch i'r cwricwlwm newydd, y Rhaglen Lywodraethu bresennol yng Nghymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- sut mae addysg heddwch yn gwneud gwahaniaeth i'ch disgyblionl, ysgolion a chymunedau
- rhywfaint o arfer da yma yng Nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am y cysylltiadau penodol rhwng Addysg Heddwch a'r Cwricwlwm Newydd, edrychwch ar ein Mapio Addysg Heddwch Cwricwlwm Cymru.

## Beth ydy addysg heddwch?

Mae addysg heddwch o: "... bwysigrwydd mawr i genhadaeth UNESCO a'r Cenhedloedd Unedig" Koichiro Matsuura, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol UNESCO

Mae Ian Harris a John Synott wedi disgrifio addysg heddwch fel cyfres o "brofiadau addysgu" sy'n ennyn y canlynol ym mhobl:

- eu hawydd am heddwch,
- dewisiadau amgen sydd ddim yn dreisgar ar gyfer rheoli gwrthdaro, a
- sgiliau ar gyfer dadansoddi'n feirniadol y trefniadau strwythurol sy'n cynhyrchu ac yn cyfreithloni anghyfiawnder ac anghydraddoldeb.

Mae gweithgareddau addysg heddwch yn hyrwyddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n helpu pobl naill ai i atal gwrthdaro, datrys gwrthdaro'n heddychlon, neu greu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i heddwch.

Mae rhaglenni addysg heddwch yn mynd i'r afael ag ystod eang o themâu, gan gynnwys cyfathrebu effeithiol, technegau datrys gwrthdaro, democratiaeth, cydraddoldeb rhywiol, hawliau dynol, cyfrifoldeb amgylcheddol, goddefgarwch amrywiaeth a dealltwriaeth ryngwladol. Yn rhan annatod o addysg heddwch, mae datblygu meddwl beirniadol, datrys problemau creadigol, empathi, cydweithredu, cyfranogiad gweithredol a myfyrio.

Yng ngeiriau Cora Weiss, Llywydd Apêl Heddwch yr Hâg: 'Mae pobl fel arfer yn dweud, gwych, pan rydych yn dweud wrthynt eich bod chi'n gweithio ym maes addysg heddwch, ond dwi'm amau'n fawr eu bod yn gwybod beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd.' Gan nad oes llawer o bobl yn deall beth ydy addysg heddwch, mae'n gallu bod yn anodd i addysgwyr a llunwyr polisi weld lle mae'n ffitio yn y cwricwlwm neu mewn rhaglenni dysgu.

Yn fras, gall addysg heddwch gynnwys unrhyw un o'r elfennau canlynol:

- Heddwch personol – yn amlwg mewn arferion fel ymwybyddiaeth ofalgar sy'n hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol;
- Heddwch rhyngbersonol – gan gynnwys dulliau fel meithrin perthynas, datrys gwrthdaro a chyfryngu – hefyd dysgu am achosion rhagfarn, stereoteipio a gwrthdaro a sut y gellir eu goresgyn;
- Addysg am heddwch a chreu heddwch. Gallai hyn gynnwys dysgu am dreftadaeth heddwch eich hun - sut mae pobl wedi gweithio dros heddwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y gorffennol a heddiw; ac
- Addysg heddwch: cefnogi pobl ifanc i ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i ddeall materion cyfredol, i greu heddwch ac i weithredu dros heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol.

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU



Mae addysg heddwch yn rhan hanfodol o gyfrannu at Nod Datblygu Cynaliadwy 4 - Addysg o Ansawdd. Un o'r nodau yma yw: "sicrhau bod pob dysgwr yn caffael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, gan gynnwys ymhlith eraill drwy addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a ffyrdd cynaliadwy o fyw, hawliau dynol, cydraddoldeb rhywiol, hyrwyddo diwylliant o heddwch a diffyg trais, dinasyddiaeth fyd-eang, a gwerthfawrogiad o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfraniad diwylliant at ddatblygu cynaliadwy".

Yn ei hadroddiad yn 2020, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn pwysleisio bod gennym gyfle unigryw yng Nghymru, drwy ein cwricwlwm newydd, i arwain y ffordd ar Nod 4.7, ac i arddangos rhagoriaeth. Mae'n annog cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru i "ddangos dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang drwy gefnogi ymddygiad cynaliadwy a gwneud y cysylltiadau". Mae hi'n mynd ymlaen i nodi "bod yn rhaid i'n pobl ifanc gael eu haddysgu a'u paratoi ar gyfer byd sy'n newid, ac mae'r cwricwlwm addysg newydd yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i Gymru gyflawni hyn.

Mae gan addysg heddwch rôl allweddol i'w chwarae mewn cefnogi dinasyddion moesegol ifanc o Gymru a'r byd, sy'n gallu deall eu treftadaeth, arfarnu datblygiadau cyfoes yn feirniadol, a gweithio ochr yn ochr ag eraill i gefnogi hawliau dynol, cydraddoldeb a ffyrdd cynaliadwy o fyw.

## Addysg a pholisi heddwch

Fel y dangosir yn ein mapio (atodiad 1), mae gan addysg heddwch gysylltiadau cryf â datblygu unigolion iach, hyderus a dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 yn ceisio adeiladu a chryfhau perthnasoedd byd-eang Cymru, a dathlu gwahanol ddiwylliannau a chofleidio rhyngwladoldeb sy'n cael ei gefnogi gan addysg heddwch.

Mae cysylltiad penodol rhwng yr ymrwymiad i sefydlu Academi Heddwch (Sefydliad Heddwch) yng Nghymru ac addysg heddwch, gan fod datblygu dealltwriaeth am heddwch a diwylliant heddwch angen dechrau yn ein lleoliadau addysgol.

"Mae heddwch yn rhan fawr o'n bywydau, ac efallai nad oeddem yn sylweddoli hynny. Nawr, rwy'n deall mwy am y newyddion.... Fel Llysgennad Heddwch, dysgais am Hawliau'r Plentyn, a daeth Comisiynydd Plant Cymru i'n hysgol. Mae ein hysgol wedi'i gefeillio ag ysgol yn Kathmandu, Nepal, ac arweiniodd y Llysgenhadon Heddwch sesiwn am hynny i'r ysgolion cynradd a fydd yn dod yma."

Delyn, blwyddyn 8, Ysgol Dyffryn Aman




## Pa wahaniaeth mae addysg heddwch yn ei wneud?

Gan fod maes addysg heddwch yn faes eang, mae canlyniadau'n amrywio yn ôl y dull sy'n cael ei werthuso. Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau yn y DU yn cyfeirio at ganlyniadau cadarnhaol. Wrth adrodd ar eu gwaith yn 2020, dywedodd RJ Working, sefydliad sy'n cefnogi ysgolion yng Nghernyw i gyflwyno a datblygu Dulliau Cyfiawnder Adferol, bod 100% o'r 125 o bobl ifanc a hyfforddwyd yn fanwl yn teimlo'n fwy hyderus ar ôl yr hyfforddiant, bod ganddynt well dealltwriaeth o ragfarn, a gwell ffyrdd o weithio gyda gwrthdaro. Dywedodd un aelod o staff: "Mae pob un o'r myfyrwyr wedi gweld ei fod yn ysgogi'r meddwl ac rwy'n credu ar y cyfan, ei fod wedi newid eu persbectif eu hunain ar sut maen nhw'n delio â sefyllfaoedd. bywyd go iawn."

Yn ddiweddar, gwerthusodd CRESST, elusen sy'n darparu hyfforddiant cyfryngu cymheiriaid yn ysgolion Sheffield, eu rhaglen mewn ysgolion cynradd dros 5 mlynedd. O'r 543 o ddysgwyr a hyfforddwyd fel cyfryngwyr cymheiriaid dros y cyfnod hwnnw, dywedodd 89.9% fod yr hyfforddiant wedi gwneud gwahaniaeth iddynt yn bersonol. Dywedodd y staff fod gan y plant fwy o hyder a'u bod nhw'n fwy cyfrifol: "Mae'r plant sydd wedi gwneud yr hyfforddiant yn llawer mwy hyderus, nid yn unig ynddyn nhw eu hunain ond yn eu gallu i newid pethau, i wneud i bethau ddigwydd." Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion fod yr hyfforddiant wedi cael yr ymatebion uchaf gan gyfranogwyr mewn ardaloedd difreintiedig.

# Ysgolion Heddwch yng Nghymru




Yng Nghymru, mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch, sydd yn cael ei redeg gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, yn cefnogi ysgolion i ddatblygu dull cyfannol, trwy ymgorffori heddwch yn eu hethos a'i ddatblygu fel thema drawsgwricwlaidd. Mae pwyslais ar ddatblygu sgiliau fel meddwl yn feirniadol, creadigrwydd a datrys gwrthdaro, yn ogystal ag annog pobl ifanc i ddysgu am dreftadaeth heddwch Cymru a gweithredu ar faterion cyfoes fel dinasyddion moesegol, gwybodus. Mae llais y disgybl yn ganolog i'r cynllun.

Mae'r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer ysgolion y gallant ei addasu i'w hanghenion a'u hamgylchiadau, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau, fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, prosiectau Ewropeaidd a rhyngwladol, ac Athroniaeth i Blant. Mae ysgolion yn datblygu Cynllun Gweithredu, a gallant ennill statws Ysgol Heddwch ar dair lefel.

"Cefais fy ysbrydoli gan y syniad, ac roedd yn ffitio'n ddelfrydol gyda'r gwaith ar feddwl yn feirniadol roeddem eisiau ei wneud fel ysgol. Mae'n wych ar gyfer prosiect trawsgwricwlaidd... Erbyn hyn, mae gennym thema ysgol newydd bob pythefnos yn seiliedig ar y NDC au, yn dechrau gyda gwasanaeth ysgol, ac yna trafodaethau dosbarth, sgyrsiau TED a dyfyniadau gan bobl enwog. Mae grŵp o wirfoddolwyr sy'n ddisgyblion wedi bod yn hyrwyddo'r cynllun fel Llysgenhadon Heddwch. Mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch yn helpu i hyrwyddo dinasyddion cyflawn - yn lleol, yng Nghymru a'r byd."
*Rachel Evans, Athro Hanes, Ysgol Dyffryn Aman*

- Fe wnaeth Ysgol David Hughes yn Ynys Môn ailedrych ar bolisi ymddygiad eu hysgol, ac arweiniodd y disgyblion ymgyrch i hyrwyddo parchu gwahaniaeth; Mae Ysgol Gynradd Alaw yn y Rhondda wedi mabwysiadu polisi ymddygiad ysgol gyfan yn seiliedig ar ddulliau adferol.
- Mae sawl ysgol wedi cynnwys dysgwyr wrth ddatblygu logo ac addewid heddwch ysgol, sydd wedyn yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol (e.e. Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Merthyr ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw, Abertawe)
- Trefnodd Ysgol Gynradd Victoria yn Wrecsam Wythnos Heddwch ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, lle'r oedd pob dysgwr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yna'n cyflwyno cyfres o wasanaethau misol, yn seiliedig ar ddarn o gelf heddwch neu farddoniaeth
- Dysgodd disgyblion Ysgol Gynradd Parc y Tywyn am y bardd Hedd Wyn a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf; dysgodd disgyblion yn Ysgol Gynradd Alaw yn y Rhondda am Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru yn 1923 - 4, a chymeront ran mewn gwaith trawsgwricwlaidd yn ei gylch. Yn Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin, bu disgyblion y Chweched Dosbarth yn ymchwilio i wahanol agweddau ar dreftadaeth heddwch Cymru ac yn arwain gwersi gyda disgyblion Bl 8.

"Mae'r ysgol gyfan yn fwy hapus, yn fwy goddefgar ac yn fwy parchus" o ganlyniad i ddod yn Ysgol Heddwch."
*Dirprwy Bennaeth mewn Ysgol Heddwch*

- Yn Ysgol Dyffryn Aman, datblygodd a gweithredodd disgyblion Bl 9 'Brosiect Caredigrwydd' yn eu cymuned leol; fel rhan o'u gwaith o amgylch Nod Datblygu Cynaliadwy 16 (Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf), dysgodd disgyblion Ysgol Acrefair, Wrecsam, am blant yn newynu yn Yemen oherwydd y gwrthdaro presennol, ac fe wnaethant helpu yn eu banc bwyd lleol hefyd.
- Yn Ysgol Dyffryn Aman, dysgodd disgyblion Bl 8 am y gwrthdaro yn Syria a chymryd rhan mewn trafodaeth feirniadol a pharchus ynglŷn â sut y dylai gwledydd allanol ymateb. Dysgodd disgyblion yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa am wrthwynebwyr cydwybodol yn eu hardal, ac ystyried manteision ac anfanteision gweithredu ar sail cydwybod ar adegau o wrthdaro.

Nod Ysgolion Heddwch yw bod yn fannau lle:

- Mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- Mae ethos ysgol yn seiliedig ar gydweithredu, parchu gwahaniaeth a datrys problemau
- Mae heddwch yn llinyn cyffredin ym mywydau beunyddol dysgwyr – yn y ffordd maen nhw'n dysgu ac yn byw gyda'i gilydd
- Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu am straeon heddychwyr a myfyrio arnynt – o Gymru a thu hwnt
- Mae dysgwyr yn cael eu hannog i fod yn ddinasyddion gweithgar a beirniadol yng Nghymru a'r byd





## ARGYMHELLION

- Fel gyda phob maes cyfoethogi disgyblion, mae'r broses o ariannu addysg heddwch yng Nghymru yn ddi-drefn. Prif argymhelliad y papur hwn yw bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen grantiau cystadleuol eglur ar gyfer cyfoethogi disgyblion i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Dylid blaenoriaethu ADCDF (sy'n cynnwys dinasyddiaeth fyd-eang, addysg amgylcheddol, seiliedig ar hawliau a heddwch) o fewn y cyllid hwnnw, oherwydd y cyfatebolrwydd i'r cwricwlwm newydd a'r bylchau sgiliau yn y maes hwn.






## YNGHYLCH WCIA

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn elusen gofrestredig sy'n ceisio ysbrydoli pobl i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt, fel y gall pawb yng Nghymru gyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno rhaglen ddysgu fyd-eang gyffrous ac arloesol; ysbrydoli cymunedau a sefydliadau ar draws Cymru i gymryd camau byd-eang; ac adeiladu partneriaethau byd-eang sy'n cysylltu Cymru a'r byd.

Mae'r holl raglenni addysg sydd yn cael eu datblygu gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn cael eu treialu yn defnyddio dull dysgu gweithredol, lle rydym yn archwilio anghenion dysgwyr ac athrawon, yn dysgu o gyflwyno ac adborth, ac yn addasu gweithgareddau a deunyddiau yn ôl yr angen.

## ADNODDAU A CHYFEIRIADAU

Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru

Astudiaethau achos ar addysg heddwch a dinasyddiaeth byd-eang

CRESST, 2021: 'Celebrating 5 years of Young Peacemakers Project'

J. O'Flaherty & M. Liddy (2017): The impact of development education and education for sustainable development interventions: a synthesis of the research, Environmental Education Research

J Warin & R Hibbin (2020): Embedding Restorative Practice in Schools. University of Central Lancaster

RJ Working (2020): 2020 Impact Report: The Ripple Effect of Restorative Practice in Cornwall

Scottish Mediation: What does Research say?

WCIA.ORG.UK
@WCIA_WALES
CENTRE@WCIA.ORG.UK